## Cynnig Dewis

Pan fydd plant yn cael trafferth siarad, gallan nhw deimlo'n bryderus ac yn betrusgar pan fydd pobl yn gofyn cwestiynau iddyn nhw, a all wedyn achosi gwrthwynebiad i gyfathrebu.

Mae cwestiynau fel; ‘beth yw hynny?’ neu ‘ble rydyn ni’n mynd?’ yn cynyddu’r pwysau y mae plant yn teimlo yn y sefyllfaoedd hyn gan eu harwain i fynd yn flin ac yn rhwystredig. Y ffordd orau o gael ymateb yw dweud y gair eich hun, ac efallai pan fydd eich plentyn yn barod, bydd yn ei ddweud ar ei ben ei hun.

### Beth ddylwn i ei wneud?

- **Cynigiwch ddewis –** drwy wneud hynny rydych chi’n rhoi’r pŵer i’r plentyn benderfynu heb fod angen geiriau Gall bwyntio, estyn neu wneud sain, ac yna efallai dweud y gair pan fydd yn barod.
- **Peidiwch ofyn gormod o gwestiynau a gwnewch fwy o sylwadau –** Drwy roi’r geiriau iddo, bydd ei hyder yn tyfu a bydd yn dechrau teimlo’n gyfforddus yn cychwyn sgwrs.
- **Cynyddwch yr amser aros –** darparwch ddigon o amser/lle yn y sgwrs i'ch plentyn ymateb. Weithiau gall plant fod angen hyd at **10 eiliad i brosesu** rhywbeth a ddywedwyd wrthyn nhw.





**Awgrym…**

**Os ydw i eisiau dweud rhywbeth i ti neu ofyn cwestiwn, efallai y byddaf yn teimlo dan bwysau ac yn rhwystredig nad oes gen i'r geiriau.**

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos isod.**

SCAN ME

SCAN ME

[www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi](http://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi)




**Sut?**

**Trwy gynnig dewisiadau**

**Sudd neu laeth?**

**Lleihau nifer y cwestiynau…**




### Rhoi hynny ar waith

- **Dewisiadau** – Dechreuwch drwy ddal y 2 wrthrych sydd ar gael i fyny fel bod gan y plentyn gliw gweledol.
  **Afal neu Oren? Esgidiau neu Welis? Coch neu Wyrdd? (Cofiwch labelu pob gwrthrych).**
  Derbyniwch unrhyw ymgais i wneud dewis, hyd yn oed os nad yw’n dweud y gair y tro hwn.

- **Mwynhewch** beth mae’n ceisio ei ddweud – mae dangos mwynhad yn gwobrwyo ei gyfathrebu, ac mae'n gwneud i'ch plentyn eisiau ei wneud yn amlach!

- Cyn defnyddio cwestiynau **‘beth?’, ‘ble?’ a ‘pwy?’** stopiwch a meddyliwch… Oes gan fy mhlentyn y geiriau i ateb hyn? Fydd hynny’n ei helpu i ymuno yn y sgwrs? **Ydw i jyst yn profi fy mhlentyn?**

**Symud ymlaen…**

Pan fyddwch yn teimlo eich bod yn hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch **Ychwanegu gair** at beth rydych chi wedi clywed eich plentyn yn ei ddweud. Mae defnyddio **geiriau gweithredu,** fel **neidio, cyrraedd** a **rhedeg** yn gallu helpu eich plentyn i ddeall sut i uno geiriau gyda'i gilydd.